Rheolau a Manylion Cystadlaethau Llefaru

1. Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

2. Bydd y pwyslais ar y llefaru ac ar gyflwyno naws ac ystyr y cerddi/darnau o ryddiaith. Gellir arbrofi, os dymunir, yn ôl gweledigaeth yr hyfforddwr e.e. gellir defnyddio symud, rhannu, gwisgoedd, cerddoriaeth neu effeithiau eraill. Awgrymiadau'n unig yw'r rhestr uchod.

3. Caniateir defnyddio cerddoriaeth wrth arbrofi ond ni ddylid ychwanegu geiriau. Cyfrifoldeb y cwmni/grŵp/ parti yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol.

4. Ni fydd yr Eisteddfodau yn darparu unrhyw offeryn cerdd.

5. Mae'r nifer a nodir mewn grŵp yn cyfeirio at y nifer sydd yn llefaru. Caniateir aelodau ychwanegol ar gyfer cyfeiliant offerynnol yn unig. Yn y cystadlaethau i ysgolion uwchradd ac Aelwydydd, rhaid i bawb sydd yn ymddangos yn y gystadleuaeth fod o fewn yr oedran priodol. Yn y cystadlaethau sy'n benodol ar gyfer Adrannau (heb fod yn Adran Ysgol) neu ar gyfer aelodau o fewn oedran cynradd, caniateir i un cyfeilydd fod dros oedran y gystadleuaeth.

6. Caniateir i dri grŵp neu gôr gynrychioli Sir/Rhanbarth yng nghystadleuaeth rhif 134.

7. Rhaid i gystadleuwyr ddefnyddio'r argraffiad a nodir yn y Rhestr Testunau hwn. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol mewn unrhyw gystadleuaeth oni nodir yn wahanol.

8. Rhaid dechrau'r perfformiad â gofod chwarae gwag, maint tua 10 x 8 medr. Ni chaniateir gosod offer, set na phropiau cyn i'r cystadleuwyr ddod i'r llwyfan. Yn yr un modd, ni chaniateir gadael offer ar y llwyfan wedi i'r cwmni gilio ar ddiwedd y perfformiad.